Traeth a Pharc Gwledig
Pen-bre
Pembrey
Country Park & Beach

# 2026
# DIWRNOD CENEDLAETHOL Y LLUOEDD ARFOG CYMRU

**Diolch am ymuno â ni ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog.**



Mae heddiw yn gyfle i ni ddod at ein gilydd i gydnabod, dathlu a diolch i gymuned y Lluoedd Arfog.

**Mehefin**
**27**
**11:30-19:30**



# Rhaglen y dydd

Ministry of Defence

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

DIWRNOD Y LLUOEDD ARFOG
ARMED FORCES DAY
DEWCH I GEFNOGI
SHOW YOUR SUPPORT

SR-103476

# Croeso



Anrhydedd a phleser mawr i mi, fel Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, yw eich croesawu i Ddiwrnod y Lluoedd Arfog yma yn Sir Gâr.

Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle pwysig i ni ddod at ein gilydd fel cymuned i ddangos ein gwerthfawrogiad diffuant i aelodau o'r lluoedd arfog – y rhai sy'n gwasanaethu heddiw, ein cyn-filwyr, a'r teuluoedd sy'n eu cefnogi.

Rydym yn hynod ddiolchgar am eu hymroddiad, eu dewrder a'u haberth, ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod eu cyfraniad at ein diogelwch a'n ffordd o fyw.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r dathliadau heddiw ac yn ymuno â ni i ddangos ein parch a'n cefnogaeth i'n lluoedd arfog.

**Y Cynghorydd Phillip Hughes**
Aelod Cabinet a Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor Sir Caerfyrddin

# Neges o ddiolch



Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cyfrannu at drefnu a chynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog eleni.

Diolch i'n partneriaid, noddwyr, lluoedd arfog, elusennau, gwirfoddolwyr a'r holl sefydliadau sydd wedi rhoi o'u hamser a'u hegni i wneud y digwyddiad hwn yn bosibl. Yn benodol, rydym yn diolch i'r rhai sy'n gwasanaethu, ein cyn-filwyr a'u teuluoedd am eu hymroddiad a'u haberth.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r digwyddiad ac yn ymuno â ni i ddathlu a dangos ein cefnogaeth i'n cymuned lluoedd arfog.

**Y Cynghorydd Linda Evans**
Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin

# Gair gan Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin



Anrhydedd o'r mwyaf yw cael croesawu Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog Cymru yma i Sir Gaerfyrddin, ac i'r safle godidog ym Mharc Gwledig Pen-bre. Mae hanes ein Lluoedd yn rhan annatod o'r ardal hon, ac mae'n sylfaen gadarn i'n hymrwymiad fel Cyngor i gymuned y Lluoedd Arfog.

Fel cyflogwr Gwobr Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, rydym yn cydnabod y sgiliau a'r profiadau mae'r Lluoedd yn eu cynnig i'n gweithlu a'n cymuned, ac rydym yn gobeithio bydd heddiw yn gyfle i ddathlu ymhellach ac i fynegi ein diolch.

**Y Cynghorydd Giles Morgan**
Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin

# Neges oddi wrth Arglwydd Raglaw Ei Fawrhydi yn Nyfed



Ar ran tair Sir Rhaglawiaeth Dyfed, rwy’n falch iawn o gefnogi'r diwrnod pwysig iawn hwn ar gyfer ein cyn-filwyr, cadetiaid, pobl ifanc a theuluoedd y Lluoedd Arfog.

**Miss Sara Edwards**
Arglwydd Raglaw Ei Fawrhydi yn Nyfed

## Neges gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb – Sioned Williams



Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog yn gyfle pwysig i gydnabod y gwasanaeth hwnnw mewn ffordd weladwy ac ystyrlon. Mae hefyd yn amser i feddwl am y cyfrifoldeb sydd arnom ni i gyd i sicrhau bod y sawl sydd wedi gwasanaethu, a'u teuluoedd, yn cael eu trin â thegwch, urddas a pharch. Mae Prif Weinidog Cymru, Rhun ap Iorwerth, wedi gwneud ei gefnogaeth i'r Lluoedd Arfog yn glir, gan ymweld â'r elusen Valley Veterans yn gynharach y mis hwn, lle eglurodd ein bod wedi ymroi i wella mynediad at wasanaethau, mynd i'r afael ag anfantais, a chydnabod cyfraniadau unigryw cymuned y Lluoedd Arfog ym mhob rhan o'r wlad trwy ein cefnogaeth barhaus i Gyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Fel y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb, rwy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd cynhwysiant a chyfleoedd. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod cyn-filwyr a theuluoedd y mae aelodau ohonynt yn rhan o'r lluoedd arfog yn cael cefnogaeth i ffynnu, boed hynny drwy dai, gofal iechyd, addysg, neu gyflogaeth, fel bod eu sgiliau, eu profiad a'u doniau yn parhau i gyfoethogi'r gymdeithas yng Nghymru.

Dymunaf ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi bod ynghlwm wrth drefniadau'r digwyddiad hwn, ac i'r sefydliadau, awdurdodau lleol a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddiflino trwy gydol y flwyddyn i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

Ar ran y Prif Weinidog, rwy'n diolch o waelod calon i bawb sy'n gwasanaethu ac sydd wedi gwasanaethu, ac rwy'n ymrwymo i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

---

## Gair gan Gomodor yr Awyrlu Rob Woods OBE, Swyddog Awyr Cymru, yr Awyrlu Brenhinol



Braint o'r mwyaf yw ymuno â Chyngor Sir Caerfyrddin wrth goffáu Diwrnod y Lluoedd Arfog 2026.

Carwn ddiolch yn fawr iawn i'r Cyngor, ei bartneriaid, a'r cymunedau lleol am gynnal yr achlysur cenedlaethol nodedig hwn, ac am eu hymrwymiad cadarn i gydnabod dewrder, gwasanaeth ac aberth ein cymuned Lluoedd Arfog.

Mae'r gefnogaeth sy'n cael ei dangos yma yn Sir Gaerfyrddin yn tystio i ddiolchgarwch y genedl bob amser. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y cyfle i ymuno â chi i gyd wrth i ni fyfyrio, dathlu a thalu teyrnged ar y diwrnod hynod arwyddocaol hwn.

# Amserlen y dydd

## 11:30 Digwyddiad yn agor Prif Lwyfan

Bydd Diwrnod y Lluoedd Arfog yn dechrau drwy orymdaith baneri fer, dan arweiniad Band y Cymry Brenhinol, a fydd yn cynnwys ein cadetiaid lleol a sefydliadau cyn-filwyr. Wedi cyrraedd ardal y llwyfan bydd yr orymdaith yn gosod eu baneri, gan nodi dechrau ffurfiol y seremoni agoriadol.

## 11:30 Band Catrawd a Chorfflu Drymiau'r Cymry Brenhinol a gorymdaith Llwybr yr Orymdaith ac o flaen y llwyfan

## 12:00 Seremoni agoriadol Prif Lwyfan

Siaradwyr:

- Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin - **Y Cynghorydd Linda Evans**
- Arglwydd Raglaw Ei Fawrhydi yn Nyfed - **Miss Sara Edwards**
- Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb - **Sioned Williams AS**
- Swyddog Awyr Cymru - **Rob Woods OBE**

## 12:30 A400M Atlas yn hedfan heibio

## 12:30 - 15:45 Adloniant prynhawn Prif Lwyfan

Bydd Mari Grug yn cyflwyno perfformiadau gan Meibion Elli, Kelly Ann Wyatt, Band Lleng Brydeinig Frenhinol Llanelli (Cymru), Côr Hospital Notes y GIG ac unigolion dawnus o Loud Applause Rising Stars.

## 15:45 Tîm Arddangos Parasiwt Hebogiaid yr Awyrlu Brenhinol *dibynnu ar y tywydd* Maes y Mynachod

## 16:00 Seremoni gloi Prif Lwyfan

Siaradwr: Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin - **Y Cynghorydd Giles Morgan**

## 17:30 - 19:30 Adloniant gyda'r hwyr Prif Lwyfan

Bydd cerddoriaeth gan Newshan, a pherfformiadau gan aelodau presennol a chyn-aelodau o Loud Applause Rising Stars, gan gynnwys Lauren Elizabeth Williams a Liam J Edwards (a wnaeth gyrraedd rownd derfynol Y Llais ar S4C yn 2025) a'r prif berfformiwr fydd Samuel Wyn Morris o'r West End.

# A400M Atlas yn hedfan heibio



Hawlfraint y Goron

Mae'r **Atlas C.1 A400M** yn awyren amlbwrpas sy'n cael ei defnyddio i gludo at ddibenion tactegol ac yn strategol i gludo cyfarpar trwm. Gall Atlas hedfan ar uchderau o hyd at 40,000 troedfedd a chario 116 o deithwyr, neu 9 paled awyrennau a 54 o deithwyr, neu 66 o estynwyr, gydag uchafswm prif lwyth o 37 tunnell.

# Tîm Arddangos Parasiwt Hebogiaid yr Awyrlu Brenhinol 2026

Mae'r tîm hwn, sef Hebogiaid yr Awyrlu Brenhinol, yn cael ei gydnabod fel prif dîm arddangos parasiwt milwrol y DU. Mae'r tîm wedi'u lleoli yn RAF Brize Norton, Swydd Rydychen, ac yn arddangos mewn lleoliadau ledled Prydain ac Ewrop drwy gydol y flwyddyn.

Fel tîm arddangos swyddogol yr Awyrlu Brenhinol maent yn arddangos gallu parasiwtio milwrol ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn y DU a chynulleidfaoedd rhyngwladol eraill.

Mae'r Awyrlu Brenhinol yn gyfrifol am hyfforddi a chefnogi holl Luoedd Awyr y DU. Yn ogystal ag arddangos sgiliau cwympo rhydd a chanopi yn ystod y tymor arddangos, mae pob aelod o dîm yr Hebogiaid yn cael hyfforddiant parhaus ar lefel uwch fel Hyfforddwyr Neidio Parasiwt i'w paratoi ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn cefnogi'r Gatrawd Parasiwt, y Môr-filwyr Brenhinol ac unedau arbenigol eraill.

***Os bydd y tywydd yn caniatáu, bydd yr arddangosiad yn digwydd tua 15:45.***




# Cwrdd â rhai o'n timau milwrol



**Peirianwyr Brenhinol Sir Fynwy (Milisia) – Sgwadron Maes Cymreig 108 (Abertawe)**

Uned beirianneg y Fyddin Wrth Gefn, wedi'i lleoli yn Abertawe, sy'n darparu milwyr medrus i gefnogi ymgyrchoedd yn y DU a dramor.
Rhagor o wybodaeth: https://rmonrem.com/



**Catrawd Feddygol Aml-rôl (MMR) (Cymreig) 203**

Uned feddygol arbenigol y Fyddin Wrth Gefn sy'n darparu cymorth gofal iechyd ar ymgyrchoedd, gan gyfuno galluoedd gofal brys, gwacáu ac ysbyty. Rhagor o wybodaeth: https://www.army.mod.uk/learn-and-explore/about-the-army/corps-regiments-and-units/royal-army-medical-service/203-welsh-multi-role-medical-regiment



**Catrawd Signalau 39**

Arbenigwyr cyfathrebu y Fyddin Wrth Gefn sy'n darparu systemau TG a chyfathrebu diogel i gefnogi ymgyrchoedd gartref a dramor. Rhagor o wybodaeth: https://www.army.mod.uk/learn-and-explore/about-the-army/corps-regiments-and-units/royal-corps-of-signals/39-signal-regiment





**Uned Cudd-ymchwil y Fyddin 74**

Yr unig uned Cudd-ymchwil y Fyddin yng Nghymru, sy'n gyfrifol am gasglu a dadansoddi gwybodaeth i gefnogi'r penderfyniadau am amddiffyn.
Rhagor o wybodaeth: https://army.mod.uk/learn-and-explore/about-the-army/corps-regiments-and-units/intelligence-corps



**Catrawd y Corfflu Logisteg Brenhinol (Cymreig) 157**

Unig gatrawd logisteg Gymreig y Fyddin Wrth Gefn; yn gyfrifol am gludo personél ac offer i'r llefydd mae eu hangen. Rhagor o wybodaeth: https://www.army.mod.uk/learn-and-explore/about-the-army/corps-regiments-and-units/ royal-logistic-corps/reserve-units/157-regiment-rlc



**Cwmni Provoast 174, Catrawd 1af yr Heddlu Milwrol Brenhinol**

Yn darparu cymorth plismona ac ymchwilio i'r Fyddin, gan gynnal disgyblaeth yn y DU ac ar ymgyrchoedd tramor. Rhagor o wybodaeth: https://www.army.mod.uk/learn-and-explore/about-the-army/corps-regiments-and-units/adjutant-generals-corps/provost-branch/royal-military-police



**Catrawd 104fed y Magnelau Brenhinol – Y Cyffinwyr Cymreig**
Catrawd fagnelau y Fyddin Wrth Gefn sy'n cefnogi ymgyrchoedd rheng flaen, gydag unedau ar draws Cymru a'r tu hwnt. Rhagor o wybodaeth:
https://www.army.mod.uk/learn-and-explore/about-the-army/corps-regiments-and-units/oyal-artillery/104th-regiment-royal-artillery/

---



**Pencadlys Brigâd 160fed (Cymreig)**
Pencadlys rhanbarthol y Fyddin yng Nghymru, sy'n cysylltu ymgyrchoedd milwrol â'r llywodraeth a chymunedau. Rhagor o wybodaeth:
https://www.army.mod.uk/learn-and-explore/about-the-army/formations-divisions-and-brigades/standing-joint-command/regional-command/hq-160th-welsh-brigade/

---



**Band Catrawd a Chorfflu Drymiau'r Cymry Brenhinol**
Band y Fyddin Wrth Gefn wedi'i wreiddio yn nhreftadaeth gerddorol De Cymru, gan berfformio mewn digwyddiadau seremonïol a chyhoeddus.
Rhagor o wybodaeth:
https://www.army.mod.uk/learn-and-explore/about-the-army/corps-regiments-and-units/infantry/royal-welsh/regimental-band-and-corps-of-drums-of-the-royal-welsh/

---



**Y Llynges Frenhinol yng Nghymru: Gwasanaethu Gartref a Ledled y Byd**
Mae morwyr a milwyr wrth gefn o Gymru yn gwasanaethu ledled y byd, gan gefnogi ymgyrchoedd amddiffyn a dyngarol cenedlaethol.
Rhagor o wybodaeth:
https://www.royalnavy.mod.uk/organisation/units-and-squadrons/royal-naval-reserve/cambria

# Stondinau

Mae ystod eang o stondinau yma heddiw, gan gynnwys cynrychiolaeth o'r lluoedd arfog, y gwasanaethau brys, elusennau cyn-filwyr a sefydliadau cymunedol lleol. Bydd y stondinau yn cynnig cyfle i ddysgu mwy am y gefnogaeth sydd ar gael i aelodau o'r lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd, yn ogystal â gweithgareddau rhyngweithiol, arddangosfeydd a chyfleoedd i gysylltu â sefydliadau allweddol. Rydym yn eich annog i dreulio amser yn mynd o'r naill stondin i'r llall, ac i ymgysylltu â'r amryw wasanaethau a chymorth sydd ar gael.

| |
|---|
| Prosiect Sgwadron 307 |
| Catrawd Feddygol Aml-rôl (Cymreig) 203 |
| Catrawd y Corfflu Logisteg Brenhinol 157 |
| Sgwadron Maes Cymreig 108, Peirianwyr Brenhinol Sir Fynwy, y Fyddin Wrth Gefn |
| Catrawd Magnelau Brenhinol 104 |
| Uned Cudd-ymchwil y Fyddin 74 |
| Catrawd Signalau 39 |
| Actif Chwaraeon a Hamdden |
| Adferiad |
| Age Cymru Dyfed |
| Alabare |
| Cronfa Les y Fyddin |
| Cymdeithas Newyddiadurwyr ac Awduron Pwylaidd yng Nghymru "DIALOG" |
| Cyn-filwyr Dall y DU |
| Tîm Ymgysylltu Troedfilwyr Byddin Prydain |
| Bulldogs BCA |

| |
|---|
| Sefydliad Cymunedol Dinas Caerdydd (Hwb Cyn-filwyr Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd) |
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru |
| Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Hamdden Ceredigion a Sir Benfro |
| Cyngor ar Bopeth |
| Connected Forces Cymru |
| CWGC (Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad) |
| Diabetes UK |
| Trafnidiaeth Dolen Teifi |
| Llu Cadetiaid Dyfed a Morgannwg |
| Heddlu Dyfed-Powys |
| Fighting With Pride |
| Elusen Cyflogaeth y Lluoedd |
| Help for Heroes |
| Helping Homeless Vets |
| Hero Paws |

- HMPPS Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Sgwad Ymerodrol Cymru - UK Garrison
- Gorsaf Dân Cydweli, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Links - Lluoedd Cyfunol
- Cadetiaid Môr Llanelli a Chaerfyrddin
- Lleng Brydeinig Frenhinol Llanelli
- Cymdeithas Cyn-filwyr Llanelli
- Cymdeithas y Llynges Fasnach, Casnewydd
- Diogelwch Tân Cymunedol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Clwb Cyn-filwyr Milwrol Cymru
- Mission Community/Redberth Croft CIC
- Mothers Matter
- Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
- Grŵp Ailgreadau P commando
- Cymdeithas Lluoedd Cyfunol Pen-bre, Porth Tywyn a'r Cylch
- Cymdeithas Corfflu Nyrsio Brenhinol y Fyddin y Frenhines Alexandra
- Awyrlu Brenhinol y Fali
- RAFAC
- Reach for the Skies
- Reading Force
- Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol
- Aelodau Rheolaidd ac Wrth Gefn yr Awyrlu Brenhinol
- Heddlu Milwrol Brenhinol
- Cymdeithas Frenhinol y Llynges - Cangen Caerfyrddin
- Y Llynges Frenhinol
- Cymdeithas Lluoedd Arfog Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru
- Scarlets
- SSAFA the Armed Forces Charity
- Cefnogi Plant y Gwasanaethau mewn Addysg yng Nghymru (SSCE Cymru)
- Tesco
- Lleng Brydeinig Frenhinol Cymru
- Therapies4services CIC
- UK Smart Recovery
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Veterans Legal Link, Prifysgol Aberystwyth
- Pabell Luniaeth y Cyn-filwyr
- Gwasanaeth Gwaed Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Y Brifysgol Ambiwlans Cymru
- Wayne John Memorabilia
- Woody's Lodge

# Noddwyr

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'n noddwyr am eu cefnogaeth hael i Ddiwrnod y Lluoedd Arfog eleni. Mae eu cyfraniad wedi bod yn allweddol i lwyddiant y digwyddiad ac i'n galluogi i ddathlu a dangos ein gwerthfawrogiad tuag at ein cymuned lluoedd arfog.







Diolch i **Dolen Teifi** a **Links** am eu cefnogaeth o ran darparu cludiant i'r digwyddiad. Mae ein cerbydau wedi eu darparu gan Dolen Teifi ac mae ein gyrwyr yn wirfoddolwyr gyda Links.

Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn am eu cefnogaeth ariannol tuag at gynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog.


Ministry of Defence

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Map o'r Safle
HEOL FFATRI
Mynedfa
Factory Rd
Allwedd:
Prif lwyfan
Arddangosiad Milwrol a Brys
Stondinau cymunedol ac arddangosfeydd
Ardal bwyd a diod
Tai bach
Cymorth 1af a gwybodaeth i ymwelwyr, Pencadlys y digwyddiad
Gorsaf sbwriel a gwastraff
Man cychwyn yr orymdaith
Mynedfa / allanfa
Maes y Digwyddiad
Llwybr yr orymdaith
Parcio i Bobl Anabl
Parth Glanio Parasiwt
G

# Llwyfan Perfformio y Prynhawn

Bydd Mari Grug yn cyflwyno'r adloniant drwy gydol y dydd a'r hwyr, gan gadw'r bwrlwm i fynd ar y llwyfan. Cerith Owens, cyd-sylfaenydd Loud Applause Rising Stars, yw ein Cyfarwyddwr Artistig ar gyfer y perfformiadau llwyfan, ac mae wedi arwain ar lunio rhaglen amrywiol o dalent drwy gydol y prynhawn a'r hwyr.


Mari Grug


Cerith Owens


Isla Lloyd


Kelly Ann Wyatt


Band Lleng Brydeinig Frenhinol Llanelli (Cymru)


GIG – Hospital Notes


Meibion Elli


Connor Horton


Rhys Hunter


Georgia Barley


| Amserlen | Perfformiwr |
|---|---|
| 12:30-13:05 | Band Lleng Brydeinig Frenhinol Llanelli (Cymru) |
| 13:10-13:25 | Rhys Hunter a Georgia Barley |
| 13:30-13:55 | GIG Hospital Notes |
| 14:00-14:25 | Kelly Ann Wyatt |
| 14:30-14:45 | Isla Lloyd a Connor Horton |
| 14:50-15:15 | Meibion Elli |
| 15:20-15:35 | Connor Horton a Georgia Barley |

I gael cefndir a rhagor o wybodaeth am ein perfformwyr talentog ewch i:
www.darganfodsirgar.com/DiwrnodCenedlaetholLluoeddArfogCymru2026

# Llwyfan Perfformio'r Hwyr

Mae'r cyngerdd gyda'r hwyr yn noson o gerddoriaeth fyw gyda detholiad gwych o dalent o Gymru. Bydd y band Newshan yn agor y noson drwy berfformio caneuon poblogaidd yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd perfformiadau hefyd gan Lauren Elizabeth Williams o LARS a Liam J Edwards, a gyrhaeddodd rownd derfynol Y Llais yn 2025. I gloi'r noson, seren y West End, Samuel Wyn Morris, fydd ein prif berfformiwr, felly mae'n addo bod yn ddiweddglo cofiadwy i'r diwrnod.










| Amserlen | Perfformiwr |
|---|---|
| 17:30-18:00 | Newshan |
| 18:00-18:15 | Lauren Elizabeth Williams |
| 18:15-18:35 | Liam J Edwards<br>(i gyfeiliant band Newshan) |
| 18:45-19:30 | Samuel Wyn Morris (prif act) |




**I gael cefndir a rhagor o wybodaeth am ein perfformwyr talentog ewch i:**
**www.darganfodsirgar.com/DiwrnodCenedlaetholLluoeddArfogCymru2026**